

Tasg 5 > Yr Arddodiaid

Mae'r arddodiaid yn creu treigladau meddal. Edrychwch yn ofalus ar yr arddodiaid isod.

am	ar	at
trwy/drwy	tros/dros	tan/dan
heb	hyd	wrth
i	o	gan

Mae'r arddodiaid uchod yn creu treigladau meddal.

<u>Y Treigladau Meddal</u>	
C	G
P	B
T	D
G	('g' yn diflannu)
B	F
D	DD
LL	L
M	F
RH	R

Tasg 5 > Treiglo'n feddal ar ôl yr arddodiaid

- Gwrandewch yn ofalus ar y trac sain unwaith eto.
- Darllenwch ran o'r ysgrif ac uwcholeuwch bob treiglad sy'n cael ei achosi gan arddodiad.

Ganwyd Bleddyn Llewelyn Williams yn un o ddeuddeg o blant ym mhentre Ffynnon Taf, ar gyrion y brifddinas. Roedd e'n un o wyth o fechgyn a phob un ohonyn nhw'n llwyddo i gynrychioli clwb rygbi Caerdydd, gyda Bleddyn a Lloyd, yn eu tro, yn datblygu'n gapteiniaid rhyngwladol.

Diolch i ymdrechion Wilfred Wooller, derbyniodd Bleddyn ysgoloriaeth i Ysgol Breswyl Rydal, a dod dan ddylanwad yr hyfforddwr craff, A J Costain. Fe chwaraeodd ei gem rhyngwladol gyntaf yn 1947, cynrychioli Cymru ar ddwy ar hugain achlysur a hawlio saith cais. Bu'n gaffaeliad i'r Llewod yn ystod eu taith i Seland Newydd yn 1950 a phrofi ei hun yn ganolwr o wir safon, ac yn gapten mewn dau brawf.

Sgoriodd 185 o geisiadau i Gaerdydd dros gyfnod o ddeg tymor. Ond mae'n ddiddorol sylwi bod ei asgellwyr - Les Williams a Haydn Morris - yr un mor gynhyrchiol. Yn sicr, fe saif Bleddyn gyda'r cewri, am fod ganddo athrylith yr artist.

Roedd e'n arweinydd naturiol. Gellir nodi buddugoliaethau Caerdydd a Chymru yn erbyn Seland Newydd yn 1953 fel enghreifftiau gwych o allu Bleddyn i roi ei holl egni i'r ymdrech o ennill. Yn anffodus, doedd yna ddim tystiolaeth fideo ar gael yn y pumdegau i atgyfnerthu atgofion nosweithiol fy nhad, ond yn sicr, fe ddes i i sylweddoli nad geiriau gweigion oedd yr hyn a draddodwyd yn ein cartref ym Mrynaman. Yn ddiweddarach, ar ein ffordd i Gaerdydd ar gyfer gemau rhyngwladol, ro'n i'n clywed Ronald Francis a Les Griffiths yn dadansoddi canolwyr addawol y cyfnod, a'r naill neu'r llall yn ychwanegu'r cymal - 'Mae 'na botensial yn sicr, ond dyw e ddim hanner cystal â Bleddyn!'

